Dirnad Economi Cymru
Economic Intelligence Wales

Dirnad Economi Cymru

Adroddiad chwarterol

Tachwedd 2026

Cardiff University
Prifysgol Caerdydd

Office for National Statistics
Swyddfa Ystadegau Gwladol

Ysgol Busnes Bangor
Bangor Business School

ERC
Enterprise Research Centre

Banc

Cynnwys

Crynodeb 3

1. Cyflwyniad 5

2. Rhagolygon economaidd byd-eang, y DU a rhanbarthol 6

3. Y darlun BBaCh yn y DU a Chymru: 14
Amodau newidiol yn llywio'r galw am gyllid

4. Darparu cyllid BBaCh a chost cyllid 22

5. Gweithgarwch Banc Datblygu Cymru 28

6. Casgliadau 33

Atodiad 1 34

Atodiad 2 35

Mark Lang, Max Munday, Annette Roberts, Neil Roche

Uned Ymchwil Economi Cymru, Ysgol Busnes Caerdydd
mundaymc@cf.ac.uk

I gael rhagor o wybodaeth neu i gyflwyno adborth a chynigion ymchwil, e-bostiwch: DirnadEconomi@bancdatblygu.cymru

Mae'r SYG wedi rhoi cyngor ar gynhyrchu'r adroddiad hwn ond nid yw'n gyfrifol am y safbwyntiau na'r ystadegau a gyflwynwyd ac nid yw wedi dilysu'r cynnwys.

Dirnad Economi Cymru Cyfyngedig, Uned J Pentref Busnes Iâl, Ffordd Ellice, Wrecsam, Cymru, LL13 7YL, 11001584.

Banc Datblygu Cymru ccc (Development Bank of Wales Plc) yw cwmni daliannol Grŵp sy'n masnachu fel Banc Datblygu Cymru. Mae'r Grŵp yn cynnwys nifer o is-gwmnïau sydd wedi'u cofrestru ag enwau gan gynnwys y blaenlythrennau BDC / DBW. Mae Banc Datblygu Cymru ccc yn gwmni cyllid datblygu sy'n eiddo'n gyfan gwbl i Weinidogion Cymru ac nid yw wedi'i awdurdodi na'i reoleiddio gan yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus (ArhD) na'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (AYA). Mae gan Fanc Datblygu Cymru (Development Bank of Wales) dri is-gwmni sydd wedi'u hawdurdodi a'u rheoleiddio gan yr AYA. Sylwch nad yw Banc Datblygu Cymru ccc nac unrhyw un o'i is-gwmnïau yn sefydliadau bancio nac yn gweithredu felly. Mae hyn yn golygu na all unrhyw un o endidau'r grŵp dderbyn blaendaliadau gan y cyhoedd. Mae siart strwythur cyfreithiol cyflawn ar gyfer Banc Datblygu Cymru ccc ar gael yn bancdatblygu.cymru.

Crynodeb

Mae'r adroddiad hwn yn darparu adolygiad o ddata economaidd sy'n berthnasol i ddatblygiad busnesau bach a chanolig yng Nghymru, a chrynodeb o weithgareddau buddsoddi Banc Datblygu Cymru yn ystod chwarter cyntaf blwyddyn ariannol 2026/27. Mae'r adroddiad yn cynnwys sylwebaeth ar y cyd-destun economaidd byd-eang a lleol a'r amodau sy'n effeithio ar y cyflenwad a'r galw am gyllid yng Nghymru.

Ni ddisgwylir i fisoedd olaf 2026 weld llawer o ryddhad o'r amodau economaidd heriol yn economi Cymru (a'r DU). Mae pwysau chwyddiant yn economi'r DU wedi bod yn datblygu ochr yn ochr â chynnydd ym mhris ynni. Mae'r rhyng-ddibyniaeth rhwng rhagolygon economaidd y DU a phrisiau olew a nwy yn parhau i fod yn bryder i Lywodraeth y DU. Yn y DU, mae amodau gwariant cyhoeddus yn parhau i fod yn dynn, tra bod anwadalrwydd ym mhrisiau ynni yn effeithio ar hyder defnyddwyr. Fodd bynnag, mae twf diweddar yn CDG y DU wedi bod yn galonogol, yn enwedig yng nghyd-destun amodau anoddach y farchnad lafur a ddangoswyd yn y gostyngiad mewn swyddi gwag a gweithwyr cyflogedig yn y DU yn y flwyddyn hyd at ddiwedd mis Awst.

Amodau economaidd

Diwygiodd y Gronfa Ariannol Ryngwladol (IMF) yr amcanestyniad o'r twf byd-eang ar gyfer 2026 0.1 pwynt canran tuag i lawr i 3.0%. Diwygiwyd yr amcanestyniad ar gyfer 2027 i fyny i 3.4%.

Dangosodd data gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) fod **chwyddiant** Mynegai Prisiau Defnyddwyr (MPD) **deuddeg mis yn y DU yn 3.1% ym mis Awst 2026, i fyny o 2.9% dros y deuddeg mis hyd at fis Gorffennaf 2026.** Daeth y cyfraniad mwyaf tuag i fyny i gyfradd chwyddiant flynyddol y MPD o drafnidiaeth, yn enwedig tanwydd moduron.

Pleidleisiodd Banc Lloegr i gadw Cyfradd y Banc ar 3.75% ym mis Medi 2026, gan nodi bod y gwrthdaro parhaus yn y Dwyrain Canol wedi cyfrannu at anwadalrwydd pellach ym mhrisiau ynni.

Yn y tri mis hyd at fis Gorffennaf 2026, amcangyfrifwyd bod **cynnyrch domestig gros y DU wedi cynyddu 0.4%**. Cafodd hyn ei yrru i raddau helaeth gan gynnydd yn y sector gwasanaethau mewn gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol (i fyny 2.1%), gwybodaeth a chyfathrebu (i fyny 2.5%), a gwasanaethau gweinyddu a chefnogi (i fyny 1.3%).

Ym mis Mehefin i Awst 2026, **roedd cyfanswm swyddi gwag yn y DU wedi gostwng 36,000** o'r lefel flwyddyn yn ôl. Mae amcangyfrifon gan PAYE yn dangos gostyngiad yn nifer y gweithwyr cyflogres yn y DU ar gyfer Awst 2026 i 30.2 miliwn, gostyngiad o 145,000 o weithwyr o'i gymharu ag Awst 2025. **Yng Nghymru, gwelwyd gostyngiad o 7,300 i 1.31 miliwn yn nifer y gweithwyr cyflogedig yn y flwyddyn hyd at fis Awst 2026.**

Mae anweithgaredd economaidd yn parhau i fod yn gyfyngiad sylweddol ar dwf economaidd yng Nghymru. Roedd **cyfradd anweithgaredd economaidd y DU yn 21.0%** yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2026, gostyngiad o 0.6 pwynt canran o'i gymharu â blwyddyn yn flaenorol (Ebrill 2024 i Fawrth 2025). **Yng Nghymru**, y ffigur cymharol oedd **24.5%**, cynnydd o 0.6 pwynt canran ers y deuddeg mis a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2025.

Arhosodd **mynegai allbwn y diwydiant adeiladu ar gyfer Cymru** ar 19.2% yn is na'i lefel yn 2023 yn Ch1 2026, gyda'r ffigur cymharol ar gyfer y DU yn cyrraedd 1.4% yn is na lefelau'r DU yn 2023.

Cynyddodd gwerth y nwyddau a allforiwyd o Gymru 5.3% i £20 biliwn yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2026. Roedd y cynnydd hwn yn bennaf oherwydd cynnydd yng ngwerth peiriannau ac offer trafnidiaeth a allforiwyd o Gymru.

Crynodeb

Y rhagolwg cyfartalog ar gyfer twf CDG y DU yn 2026 oedd 1.2% ym mis Medi 2026. Roedd hyn 0.1 pwynt canran yn uwch na'r rhagolwg cyfartalog newydd a wnaed ym mis Awst 2026.

Amodau economaidd newidiol yn llywio'r galw am gyllid

Cofrestrodd Mynegai Busnesau Bach y DU Ffederasiwn y Busnesau Bach **ostyngiad mewn hyder mewn busnes yn ystod Ch2 2026 i -57.4**, gyda dim ond 21.7% o Fusnesau Bach a Chanolig y DU yn nodi twf yn y tri mis blaenorol.

Adroddodd The SME Finance Monitor fod **27%** sefydlog **o Fusnesau Bach a Chanolig y DU** (ac eithrio busnesau newydd eu sefydlu) **wedi tyfu dros y 12 mis diwethaf hyd at fis Gorffennaf 2026.**

Roedd nifer y marwolaethau busnes yng Nghymru yn fwy na nifer y genedigaethau busnes yn ystod Ch2 2026. Cyfanswm y genedigaethau busnes yng Nghymru yn Ch2 2026 oedd 2,535, tra bo nifer y marwolaethau busnesau yng Nghymru yn ystod yr un cyfnod yn 2,780.

Yn ôl Arolwg Effeithiau ac Amodau Busnes y SYG ar gyfer 1 i 31 Gorffennaf 2026 roedd **36.8% o fusnesau Cymru yn disgwyl y byddai eu perfformiad yn cynyddu yn y flwyddyn i ddod** (31.9% yn y DU).

Dangosodd data'r SYG fod prisiau tai yng Nghymru wedi cynyddu 1.8% yn y 12 mis hyd at fis Mehefin 2026, a phris cyfartalog tŷ yng Nghymru ym mis Mehefin 2026 oedd £213,162. **Cofrestrodd Mynegai Rheolwyr Prynu Adeiladu** S&P Global UK **44.3 mewn gweithgarwch adeiladu cyffredinol ym mis Awst 2026**, gan barhau islaw'r marc 50.0 sy'n gwahaniaethu rhwng ehangu a chrebachu yn y mynegai hwn.

Y cyflenwad a'r galw am gyllid

Adroddodd benthycwyr fod **argaeledd credyd ar gyfer busnesau bach a chanolig wedi gostwng ychydig ac nad oedd wedi newid ar gyfer busnesau mawr yn Ch2 2026. Adroddodd benthycwyr fod y galw am fenthyca gan fusnesau bach a chanolig wedi gostwng ac nad oedd wedi newid ar gyfer busnesau mawr yn Ch2 2026.**

Adroddodd UK Finance fod **benthyciadau gros cyffredinol gan y prif fenthycwyr stryd fawr i fusnesau bach a chanolig yn ystod Ch2 2026 26% yn uwch na'r un chwarter flwyddyn yn ôl.** Ar £5.35 biliwn, cyrhaeddodd benthyca gros uchafswm newydd ar gyfer y cyfnod ar ôl y pandemig.

Canfu'r SME Finance Monitor fod **56% o Fusnesau Bach a Chanolig y DU wedi defnyddio rhyw fath o gyllid allanol yn y 3 mis hyd at ddiwedd Gorffennaf 2026.** Cardiau credyd oedd y math mwyaf cyffredin o gyllid busnes o hyd. **Y gyfradd llog effeithiol ar fenthyciadau newydd i Fusnesau Bach a Chanolig oedd 6.61% ym mis Gorffennaf 2026**, i fyny o 6.36% ym mis Mehefin 2026.

Gweithgaredd Banc Datblygu Cymru

Yn Ch1 2026/27, **cwblhaodd Banc Datblygu Cymru 151 o fuddsoddiadau gyda chyfanswm gwerth o £48.4 miliwn. Roedd y buddsoddiadau hyn yn gysylltiedig â bron i 1,140 o swyddi newydd a swyddi wedi'u diogelu.**

Fe wnaeth **busnesau yn y sector adeiladu ddominyddu buddsoddiad** yn Ch1 2026/27, gan gyfrif am draean o'r buddsoddiadau yn ôl gwerth (£13.7 miliwn).

Roedd y nifer uchaf o swyddi a grëwyd neu a ddiogelwyd gan fuddsoddiadau'r Banc Datblygu yn Ch1 2026/27 yn y **sector iechyd dynol a gwaith cymdeithasol** (193 o swyddi). Sicrhaodd busnesau yn y sector hwn £6.8 miliwn o fuddsoddiad yn y cyfnod hwn, yn ymwneud yn bennaf â gweithgareddau gofal preswyl.

Cyflwyniad 1

Mae'r adroddiad hwn yn darparu adolygiad o ddata economaidd sy'n berthnasol i ddatblygiad busnesau bach a chanolig yng Nghymru, a chrynodeb o weithgareddau buddsoddi Banc Datblygu Cymru yn ystod chwarter cyntaf blwyddyn ariannol 2026/27. Mae'r adroddiad yn cynnwys sylwebaeth ar y cyd-destun economaidd byd-eang a lleol a'r amodau sy'n effeithio ar y cyflenwad a'r galw am gyllid yng Nghymru.

Yn adrannau 2-4 yr adroddiad hwn, rhoddir y cyd-destun macroeconomaidd y mae Busnesau Bach a Chanolig yng Nghymru yn gweithredu ynddo, ac archwilir ffactorau sy'n ymwneud â'r galw am gyllid BBaCh, ei gyflenwad a'i gost. Mae adran 5 yn crynhoi gweithgareddau Banc Datblygu Cymru. Yn yr adran olaf ceir rhai casgliadau cyffredinol i'r adroddiad.

I raddau helaeth, mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar ddata sydd ar gael i'r cyhoedd (sy'n destun adroddiad fesul blwyddyn calendr fel arfer), ynghyd â dadansoddiad arbennig o ddata a ddarperir gan Fanc Datblygu Cymru (sy'n destun adroddiad fesul blwyddyn ariannol yn bennaf). Oherwydd gwahaniaethau mewn cyfnodau adrodd, bydd ychydig bach o anghysondeb o ran amser yn y data yn yr adroddiad hwn.

Cwblhawyd drafftio'r adroddiad hwn ar 23 Medi 2026.

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Dirnad Economi Cymru yr adroddiadau canlynol:

- Perchnogaeth busnes BBaCh a chynllunio olyniaeth.[1]
- Arwyr cynhyrchiant yng Nghymru: pwy ydyn nhw a pham maen nhw'n bwysig.[2]

Bydd cyfres o allbynnau eraill yn cael eu cyhoeddi yn ystod 2026-27, gan gynnwys adroddiadau am y canlynol:

- Llywodraethu a chyllido mentrau a arweinir gan y gymuned yng Nghymru.
- Deall cyfleoedd amddiffyn yng Nghymru: Sut y gallwn ni gefnogi Busnesau Bach a Chanolig Cymru yn well?
- Perfformiad masnach Cymru a dyfodol masnachu.

[1] https://developmentbank.wales/cy/cynllunio-olyniaeth-perchnogaeth-bbach
[2] Arwyr Cynhyrchiant yng Nghymru: Pwy ydyn nhw a pam maen nhw'n bwysig - Dev Bank

Rhagolygon economaidd byd-eang, y DU a rhanbarthol

- Gyda'r gwrthdaro yn parhau yn y Dwyrain Canol, israddiwyd rhagolwg twf byd-eang y Gronfa Ariannol Ryngwladol ar gyfer 2026 o 0.1 pwynt canran i 3.0%. Uwchraddiwyd amcanestyniad 2027 i 3.4%.
- Roedd chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr (MPD) deuddeg mis yn y DU yn 3.1% ym mis Awst 2026, i fyny o 2.9% dros y deuddeg mis hyd at Orffennaf 2026.
- Pleidleisiodd Pwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr i gadw Cyfradd y Banc ar 3.75% ym mis Medi 2026.
- Cynyddodd mynegai allbwn y diwydiant adeiladu yng Nghymru 4.7% rhwng Ch4 2025 a Ch1 2026 ond arhosodd 19.2% yn is na lefel 2023 Cymru yn Ch1 2026. Mae'r ffigur cymharol ar gyfer y DU 1.4% yn is na lefel y DU yn 2023.

Rhagolygon byd-eang

Nododd Diweddariad Rhagolwg Economaidd y Byd y Gronfa Ariannol Ryngwladol (IMF)[3] a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2026 y rhagolygon anwastad sy'n wynebu economïau'r byd. Er bod y gwrthdaro yn y Dwyrain Canol wedi bod yn "pwyso ar fewnforwyr ynni ac economïau agored i niwed", mae hyn wedi'i wrthbwyso rhywfaint gan alw sy'n gysylltiedig â deallusrwydd artiffisial (AI) sy'n "codi gwledydd sydd wedi'u hintegreiddio i'r gadwyn werth technoleg fyd-eang".

Mae adroddiad y Gronfa Ariannol Ryngwladol (IMF) yn rhoi rhagolygon twf o dan wahanol ragdybiaethau, gyda'r rhain yn cynnwys prisiau ynni yn parhau i fod yn uwch nag yr oeddent cyn y rhyfel, polisi ariannol "llai cefnogol" o ystyried bod pwysau chwyddiant yn dychwelyd, ac ansicrwydd geo-wleidyddol parhaus trwy 2027.

O dan y rhagdybiaethau hyn, rhagwelodd y Gronfa Ariannol Ryngwladol dwf byd-eang o 3.0% ar gyfer 2026, wedi'i ddiwygio i lawr 0.1 pwynt canran o Ragolwg Economaidd y Byd[4] yr IMF a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2026. Y rhagolwg ar gyfer 2027 oedd twf byd-eang o 3.4%, diwygiad o 0.2 pwynt canran yn uwch.

Yn yr Unol Daleithiau, fe wnaeth yr IMF ragweld twf o 2.3% yn 2026, yr un ganran ag a ragwelwyd yn Rhagolwg Economaidd y Byd IMF ym mis Ebrill, a rhagwelodd y byddai'r twf yn 2.2% yn 2027, diwygiad o 0.1 pwynt canran yn uwch o fis Ebrill. Mae'r ffigurau cymharol ar gyfer ardal yr Ewro yn awgrymu twf o 0.9% yn 2026 ac 1.2% yn 2027. Yn y DU, amcanestyniad twf yr IMF yw 1.0% yn 2026, diwygiad o 0.2 pwynt canran yn uwch. Disgwylir i dwf yn y DU fod yn 1.3% yn 2027, yr un fath ag a ragwelwyd ym mis Ebrill.

[3] https://www.imf.org/en/publications/weo/issues/2026/07/08/world-economic-outlook-update-july-2026
[4] https://www.imf.org/en/publications/weo/issues/2026/04/14/world-economic-outlook-april-2026

Pwysau chwyddiant y DU

Roedd chwyddiant MPD deuddeg mis yn y DU yn 3.1% ym mis Awst 2026, i fyny o 2.9% dros y deuddeg mis hyd at Orffennaf 2026,[5] yn ôl data a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Daeth y cyfraniad mwyaf tuag i fyny i gyfradd chwyddiant flynyddol y MPD o drafnidiaeth, yn enwedig tanwydd moduron. Nid oedd unrhyw gyfraniadau mawr tuag i lawr yn gwrthbwyso hyn.

Gellir dadlau bod y Mynegai Prisiau Defnyddwyr Craidd yn ddangosydd gwell o ba raddau y gall chwyddiant fod wedi'i ymgorffori yn yr economi o hyd gan ei fod yn eithrio elfennau anwadal o'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr fel prisiau ynni a bwyd. Yn y deuddeg mis hyd at Awst 2026, cynyddodd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr Craidd 2.6%, oedd heb newid o'r ffigur cymharol ar gyfer y deuddeg mis hyd at fis Gorffennaf 2026.[6]

Cynyddodd prisiau allbwn cynhyrchwyr (giât y ffatri) 3.7% yn y flwyddyn hyd at Awst 2026, i fyny o'r cynnydd diwygiedig o 3.3% yn y flwyddyn hyd at fis Gorffennaf 2026.[7] Daeth y cyfraniad mwyaf tuag i fyny i gyfradd chwyddiant yr allbwn blynyddol ym mis Awst 2026 o allbynnau golosg a chynhyrchion petrolewm puredig. Cynyddodd prisiau golosg a chynhyrchion petrolewm puredig 49.1% yn y flwyddyn hyd at Awst 2026, o'i gymharu â chynnydd diwygiedig o 35.4% yn y flwyddyn hyd at fis Gorffennaf 2026. Mae'r gwrthdaro parhaus yn y Dwyrain Canol yn tarfu ar farchnadoedd olew byd-eang, ac arweiniodd yr ansicrwydd sy'n deillio o hynny at gynnydd sydyn ym mhrisiau cynhyrchion petrolewm puredig ym mis Awst 2026. Mae'r ffaith y disgwylir aflonyddwch pellach ac y bydd llai o olew ar gael yn y dyfodol wedi creu nifer o effeithiau: prisiau crai yn cynyddu cyn unrhyw brinder ffisegol gwirioneddol; efallai y bydd purwyr a chyfanwerthwyr yn wynebu talu premiwm i ail-lenwi stociau; ac wrth i danceri olew wynebu llwybrau mwy peryglus neu hirach, y cynnydd cysylltiedig mewn costau cludo nwyddau ac yswiriant.

Yn y flwyddyn hyd at Awst 2026, cynyddodd prisiau allbynnau eraill o weithgynhyrchu 3.5%, o'i gymharu â chynnydd diwygiedig o 4.5% yn y flwyddyn hyd at Orffennaf 2026 - yma, arweiniodd prisiau olew uwch at brisiau uwch am gynhyrchion plastig. Cododd prisiau metelau sylfaenol, cynhyrchion metel wedi eu saernïo a pheiriannau 5.6% yn y flwyddyn hyd at Awst 2026, cynnydd o'r 4.9% diwygiedig yn y flwyddyn hyd at fis Gorffennaf 2026. Nododd y SYG fod prisiau uwch am wasanaethau peiriannu (lle mae cydran fetel, neu ddarn lled-orffenedig, yn cael ei dorri, ei siapio, ei ddrilio neu ei brosesu fel arall yn fecanyddol), yn ffactor cyfrannol mawr. Roedd y prisiau uwch hyn ar gyfer gwasanaethau peiriannu yn debygol o fod oherwydd cyfuniad o ffactorau gan gynnwys costau ynni cynyddol, cynnydd mewn prisiau ar gyfer mewnbynnau dur / metel,[8] a chostau llafur uwch mewn peirianneg medrus.[9]

Roedd y cyfraniadau tuag i lawr mwyaf i gyfradd chwyddiant yr allbwn blynyddol yn dod o allbynnau cynhyrchion bwyd (gostyngodd prisiau 0.9% yn y flwyddyn hyd at Awst 2026), ac allbynnau cerbydau modur ac offer trafnidiaeth arall (gostyngodd prisiau 1.4% yn y flwyddyn hyd at Awst 2026).

[5] www.ons.gov.uk/economy/inflationandpriceindices/bulletins/consumerpriceinflation/august2026
[6] https://www.ons.gov.uk/economy/inflationandpriceindices/bulletins/consumerpriceinflation/august2026
[7] https://www.ons.gov.uk/economy/inflationandpriceindices/bulletins/consumerpriceinflation/august2026
[8] https://www.ons.gov.uk/economy/inflationandpriceindices/bulletins/consumerpriceinflation/august2026
[9] https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/timeseries/k5ae/emp

Banc Lloegr yn cadw Cyfradd y Banc yn sefydlog ym mis Medi 2026

Ym mis Medi 2026, cadwodd Banc Lloegr Gyfradd y Banc ar 3.75%. Nododd Crynodeb y Polisi Ariannol[10] ar gyfer mis Medi fod y gwrthdaro parhaus yn y Dwyrain Canol wedi cyfrannu at anwadalrwydd pellach ym mhrisiau ynni, a gyda chwyddiant MPD y DU yn cynyddu i 3.1% ym mis Awst, "... mae polisi ariannol yn cael ei osod i sicrhau bod chwyddiant yn dod i lawr i 2% yn gynaliadwy wrth i'r economi addasu i'r sioc ynni...".

Cynnyrch Domestig Gros y DU yn cynyddu yn y tri mis hyd at fis Gorffennaf 2026

O gymharu â'r tri mis hyd at Ebrill 2026, amcangyfrifir bod cynnyrch domestig gros real y DU wedi cynyddu 0.4% yn y tri mis hyd at fis Gorffennaf 2026.[11] Dilynodd hyn dwf, hefyd o 0.4%, yn y tri mis hyd at fis Mehefin 2026.

Yn ôl sector, yr allbwn mewn gwasanaethau'r DU oedd y cyfrannwr mwyaf at y cynnydd mewn Cynnyrch Domestig Gros yn y tri mis hyd at fis Gorffennaf 2026. Cynyddodd allbwn mewn gwasanaethau yn y DU 0.6% yn y tri mis hyd at fis Gorffennaf 2026, yn dilyn twf o 0.5% yn y tri mis hyd at fis Mehefin 2026, a 0.6% yn y tri mis hyd at fis Mai 2026. Y cyfranwyr cadarnhaol mwyaf at allbwn gwasanaethau yn y tri mis hyd at fis Gorffennaf 2026 oedd gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol (i fyny 2.1%, wedi'u hysgogi gan dwf mewn ymchwil a datblygu gwyddonol, gweithgareddau cyfreithiol, a hysbysebu ac ymchwil i'r farchnad); gwybodaeth a chyfathrebu (i fyny 2.5%, wedi'i yrru gan dwf mewn rhaglennu cyfrifiadurol, ymgynghoriaeth a gweithgareddau cysylltiedig); a gweithgareddau gwasanaethau gweinyddol a chymorth (i fyny 1.3%), gyda thwf cymharol uchel mewn gweithgareddau rhentu a phrydlesu, a gwasanaethau i adeiladau a gweithgareddau tirwedd.

Y cyfrannwr negyddol mwyaf at allbwn mewn gwasanaethau oedd o'r fasnach gyfanwerthol a manwerthu; atgyweirio cerbydau modur a beiciau modur (i lawr 0.5%, wedi'i yrru gan ostyngiad mewn masnach gyfanwerthol, ac eithrio cerbydau modur a beiciau modur); ac addysg (i lawr 0.3%) wedi'i yrru gan ostyngiad mewn addysg nad yw ar gyfer y farchnad, gyda'r SYG yn nodi bod "hyn yn cyd-fynd â chau rhai ysgolion yn ystod y gwres llethol a welwyd ar draws llawer o'r DU yn ystod mis Mehefin".

Yn y tri mis hyd at fis Gorffennaf 2026, amcangyfrifir bod allbwn yn sector cynhyrchu'r DU wedi crebachu 0.5% o'i gymharu â'r tri mis hyd at Ebrill 2026. Mae hyn yn dilyn dim cynnydd yn y tri mis hyd at fis Mehefin 2026, a chynnydd o 0.2% yn y tri mis hyd at fis Mai 2026. Sbardunwyd y crebachiad yn y sector cynhyrchu gan ostyngiadau o weithgareddau'r cyflenwad dŵr; carthffosiaeth, rheoli gwastraff ac adfer (i lawr 4.0%); cyflenwadau trydan, nwy, ager ac aerdymheru (i lawr 1.5%); a mwyngloddio a chwarela (i lawr 2.6%). Gwrthbwyswyd hyn yn rhannol gan dwf o 0.5% mewn allbwn gweithgynhyrchu yn y tri mis hyd at fis Gorffennaf 2026 o'i gymharu â'r tri mis hyd at Ebrill 2026 - gyda chyfraniadau cadarnhaol gan: weithgynhyrchu cynhyrchion cyfrifiadurol, electronig ac optegol; gweithgynhyrchu peiriannau ac offer na chafodd eu dosbarthu yn unman arall; a gweithgynhyrchu cynhyrchion bwyd, diodydd a thybaco.

Mae amcangyfrifon CDG misol y DU yn datgelu y bu cynnydd o 0.4% ym mis Gorffennaf 2026. Roedd hyn yn dilyn twf o 0.3% ym mis Mehefin 2026 a dim twf ym mis Mai 2026.

[10] https://www.bankofengland.co.uk/monetary-policy-summary-and-minutes/2026/september-2026
[11] https://www.ons.gov.uk/economy/grossdomesticproductgdp/bulletins/gdpmonthlyestimateuk/july2026

Rhagolygon economaidd byd-eang, y DU a rhanbarthol

Cynyddodd buddsoddiad busnes y DU yn Ch2 2026

Yn ôl ffigurau a gyhoeddwyd gan y SYG[12], cynyddodd buddsoddiad busnes y DU 1.7% yn Ch2 2026 (Ebrill i Fehefin). Roedd hyn 0.8% yn uwch na lefel Ch2 2025.

Mae nifer y swyddi gwag yn y DU yn parhau i ostwng

Yr amcangyfrif o nifer y swyddi gwag yn y DU yn y cyfnod Mehefin i Awst 2026 oedd 702,000, gostyngiad o 8,000 o'r chwarter blaenorol (Mawrth i fis Mai 2026).[13] Fel y nodwyd mewn adroddiadau Dirnad Economi Cymru blaenorol, mae'r gostyngiad mewn swyddi gwag yn y DU yn ystod y misoedd diwethaf wedi'i gysylltu â'r cynnydd yn yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Cenedlaethol o fis Ebrill 2025, gan ychwanegu at gostau cynyddol i gyflogwyr, a chyfyngiadau cysylltiedig ar recriwtio.[14]

Ym mis Mehefin i Awst 2026 roedd cyfanswm y swyddi gwag i lawr 36,000 (4.9%) o lefel y flwyddyn flaenorol ac roeddent 86,000 (10.9%) yn is na'u lefel cyn pandemig COVID-19 rhwng Ionawr a Mawrth 2020.[15] Roedd y gostyngiadau mwyaf mewn swyddi gwag ym mis Mehefin i Awst 2026 o'r chwarter blaenorol mewn addysg (gostyngiad o 5,000 o swyddi gwag), a gweithgareddau gweithgynhyrchu, gwybodaeth a chyfathrebu, gwasanaethau gweinyddol a chymorth, a gweithgareddau iechyd dynol a gwaith cymdeithasol (pob un i lawr 3,000). Nododd y SYG fod adborth o'u "Vacancy Survey "... yn parhau i awgrymu efallai nad yw cwmnïau llai yn recriwtio oherwydd cynnydd mewn costau llafur...".[16]

Mae amcangyfrifon cynnar Gwybodaeth mewn Amser Real Talu wrth Ennill[17] yn datgelu gostyngiad yn nifer gweithwyr cyflogres y DU ar gyfer mis Awst 2026 i 30.2 miliwn, sef gostyngiad o 145,000 o weithwyr cyflogedig (neu 0.5%) o gymharu â'r ffigur ar gyfer mis Awst 2025. Yn y flwyddyn hyd at Awst 2026, roedd y cynnydd mewn gweithwyr cyflogedig yn y DU fwyaf yn y sector gwasanaethau gweinyddol a chymorth (gweithwyr yn cynyddu 72,000 neu 3.0%), tra roedd y gostyngiad mwyaf yn y sector cyfanwerthu a manwerthu (gostyngiad o 76,000 o weithwyr, neu -1.8%).[18] Rhwng Awst 2025 ac Awst 2026 bu gostyngiad hefyd yn nifer y gweithwyr cyflogedig mewn ystod amrywiol o sectorau eraill, gan gynnwys gweithgynhyrchu, adeiladu, gweithgareddau llety a gwasanaethau bwyd, gwybodaeth a chyfathrebu, a gwasanaethau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol.

Yn y flwyddyn hyd at Awst 2026, gostyngodd nifer y gweithwyr cyflogedig yng Nghymru 7,300 (neu -0.6%) i 1.31 miliwn.[19] Mae data rhanbarthol y DU am weithwyr cyflogedig yn ôl sector yn cael eu diweddaru'n llai aml, ond mae'r data ar gyfer Gorffennaf 2026 yn dangos bod y gostyngiad yn nifer y gweithwyr cyflogedig yng Nghymru dros y flwyddyn yn fwyaf amlwg mewn gwasanaethau llety a bwyd (gostyngiad o 3,500 o weithwyr neu -3.7%), cyfanwerthu a manwerthu (gostyngiad o 3,300 o weithwyr, neu -1.9%), a gweithgynhyrchu (gostyngiad o 2,400 o weithwyr neu -2.0%).[20] Felly, parhaodd sectorau sy'n sensitif i gostau a rhai sy'n wynebu defnyddwyr yng Nghymru i brofi gwendid mewn amodau cyflogaeth.

[12] https://www.ons.gov.uk/economy/grossdomesticproductgdp/bulletins/businessinvestment/apriltojune2026provisionalresults
[13] https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/bulletins/jobsandvacanciesintheuk/september2026
[14] https://www.theguardian.com/business/2026/feb/23/uk-job-vacancies-fall-to-lowest-level-since-pandemic
[15] https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/bulletins/jobsandvacanciesintheuk/september2026
[16] https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/bulletins/jobsandvacanciesintheuk/september2026
[17] https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/bulletins/earningsandemploymentfrompayasyouearnrealtimeinformationuk/september2026
[18] https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/datasets/realtimeinformationstatisticsreferencetableseasonallyadjusted
[19] https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/datasets/realtimeinformationstatisticsreferencetableseasonallyadjusted
[20] https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/datasets/realtimeinformationstatisticsreferencetableseasonallyadjusted

Rhagolygon economaidd byd-eang, y DU a rhanbarthol

Cyfraddau diweithdra'r DU a Chymru

Roedd y data diweithdra diweddaraf oedd ar gael o'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol (APS), ar adeg ysgrifennu, ar gyfer y cyfnod deuddeg mis hyd at fis Mawrth 2026 (oherwydd problemau sy'n parhau gydag ansawdd data Arolwg o'r Llafurlu SYG, a defnyddiwyd data'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol yn yr adroddiad hwn).

Yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2026, amcangyfrifwyd bod cyfradd ddiweithdra y DU (pawb oedd yn 16+ oed) yn 4.4%[21]. Roedd hyn yn cynrychioli cynnydd o 0.6 pwynt canran o'r ffigur ar gyfer y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2025.

Roedd y cyfraddau diweithdra rhanbarthol uchaf yn y DU yn y deuddeg mis a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2026 yn Llundain (6.2%), Gorllewin Canolbarth Lloegr (5.7%), y Gogledd Ddwyrain (4.7%), a Swydd Efrog a Humber (4.6%), tra roedd y cyfraddau isaf yng Ngogledd Iwerddon (2.1%), y De-orllewin (3.2%), y De-ddwyrain (3.5%), a'r Dwyrain (3.9%). Yng Nghymru, y gyfradd ddiweithdra ar gyfer y cyfnod o ddeuddeg mis hyd at fis Mawrth 2026 oedd 4.3%, sy'n gynnydd o 0.8 pwynt canran o'r gyfradd ddiweithdra yn ystod y deuddeg mis a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2025.

Mae cynnydd yn nifer hawlwyr budd-dal diweithdra y DU a Chymru

Yn ystod y flwyddyn hyd at Awst 2026, cynyddodd nifer yr hawlwyr budd-daliadau sy'n gysylltiedig â diweithdra yn y DU (heb ei addasu'n dymhorol) 34,900 i 1.70 miliwn o bobl.[22]

Yng Nghymru, hawliodd 64,795 o bobl fudd-daliadau sy'n gysylltiedig â diweithdra ym mis Gorffennaf 2026 (sy'n hafal i 3.3% o'r boblogaeth breswyl rhwng 16 a 64 oed, heb eu haddasu'n dymhorol, o'i gymharu â ffigur o 3.9% ar gyfer y DU), cynnydd o 2,570 yn nifer yr hawlwyr o'i gymharu â Gorffennaf 2025.[23] Dylid nodi bod y gwerthoedd ar gyfer mis Ebrill 2026 yn rhai dros dro ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

Yn ôl y data ar gyfer Gorffennaf 2026, yr awdurdodau unedol yng Nghymru gyda'r gyfran uchaf o'r boblogaeth o oedran gweithio oedd yn hawlio budd-daliadau sy'n gysylltiedig â diweithdra oedd Casnewydd (4.5%), Caerdydd (3.9%), Blaenau Gwent (3.8%), Conwy (3.6%), Torfaen (3.6%), Sir Ddinbych (3.5%) ac Ynys Môn (3.5% hefyd), a'r rhai â'r cyfrannau isaf oedd Sir Fynwy (2.3%), Powys (2.6%), Ceredigion (2.6%), Gwynedd (2.8%), Sir Gaerfyrddin (2.9%), Sir y Fflint (3.0%), Wrecsam (3.0%), a Phen-y-bont ar Ogwr (3.0%).

Mae anweithgaredd economaidd yn cynyddu yng Nghymru ond yn gostwng yn y DU

Mae anweithgaredd yng Nghymru yn parhau i fod yn uwch na chyfartaledd y DU, er gwaethaf rhywfaint o welliant yn ddiweddar, sy'n cyfyngu ar y cyflenwad llafur sydd ar gael. Cyfradd anweithgaredd y DU (rhwng 16 a 64 oed) yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2026 oedd 21.0% yn ôl data Arolwg Poblogaeth Blynyddol y SYG[24], gostyngiad o 0.6 pwynt canran o'i gymharu â blwyddyn ynghynt (Ebrill 2024 i Fawrth 2025). Yng Nghymru, y ffigur cymharol oedd 24.5% yn y deuddeg mis a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2026, i fyny 0.6 pwynt canran o'i gymharu â'r ffigur yn y deuddeg mis a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2025.


[21] SYG, Arolwg Poblogaeth Blynyddol, https://www.nomisweb.co.uk/
[22] https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peoplenotinwork/outofworkbenefits/datasets/claimantcountcla01
[23] https://stats.llyw.cymru/cy-GB/64d58bef-c97c-4413-8aed-2298eac3a419
[24] SYG, Arolwg Poblogaeth Blynyddol, https://www.nomisweb.co.uk/

Allbwn diwydiant adeiladu Cymru yn cynyddu o Ch4 2025 i Ch1 2026

Mae Ffigur 2.1 yn dangos mynegeion cynhyrchu, adeiladu a gwasanaethau'r farchnad ar gyfer Cymru rhwng Ch1 2023 a Ch1 2026. Roedd mynegai cynhyrchu Cymru yn Ch1 2026 2.9% yn is na lefel 2023, gyda'r ffigur cyfatebol ar gyfer y DU 1.4% yn is na lefel 2023. Ffactor negyddol a effeithiodd ar y mynegai cynhyrchu yng Nghymru yn ystod diwedd 2024 a dechrau 2025 oedd lleihad yn allbwn Tata Steel yn ne Cymru.

Cofnododd mynegai allbwn y diwydiant adeiladu ar gyfer Cymru dwf sylweddol yn 2022 a 2023, gan adlewyrchu effaith nifer o brosiectau adeiladu mawr a gynhaliwyd ledled y rhanbarth. Yn fwy diweddar, cynyddodd mynegai adeiladu Cymru 4.7% rhwng Ch4 2025 a Ch1 2026 ond parhaodd 19.2% yn is na lefel Cymru yn 2023 yn Ch1 2026. Mae'r ffigur cymharol ar gyfer y DU 1.4% yn is na lefel 2023. Arhosodd mynegai gwasanaethau marchnad Cymru yn weddol sefydlog dros y cyfnod a ddadansoddwyd, sef 1.5% yn uwch na lefel 2023 erbyn Ch1 2026. Cyrhaeddodd ffigur cymharol y DU 3.3% yn uwch na lefel 2023.

Ffigur 2.1. ***Mynegeion allbwn Cymru: tuedd Ch1 2023 – Ch1 2026 (2023=100)***



Ffynhonnell: Stats Cymru, Mynegeion Cynhyrchu ac Adeiladu Cymru (2023=100) yn ôl adran a blwyddyn, a Mynegai Gwasanaethau'r Farchnad (2023=100) yn ôl blwyddyn ac ardal.

Nododd adroddiad Crynodeb Asiantau o Amodau Busnes Banc Lloegr[25], a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2026, fod "mwy o ansicrwydd geo-wleidyddol a phwysau costau cynyddol" wedi lleihau hyder economaidd ac arafu gwneud penderfyniadau, gan arwain at ostyngiadau mewn allbwn adeiladu. Y mae'r adroddiad yn nodi galw cyson yn y sector cyhoeddus, twf gweithgaredd diwydiannol parhaus, a phiblinellau iach ar gyfer gwariant ar amddiffyn a seilwaith mawr - gyda'r rhybudd y gallai prosiectau fod yn araf i gael eu cwblhau. Felly, roedd rhagolygon ar gyfer y sector adeiladu yn cael eu hystyried fel rhai oedd yn cael eu dal yn ôl ar gyfer y misoedd nesaf gyda phryderon ynghylch ansicrwydd gwleidyddol a chwotâu dur yn ychwanegu ymhellach at y pryderon.

[25] https://www.bankofengland.co.uk/agents-summary/2026/july-2026

Cynyddodd gwerth y nwyddau a allforiwyd o Gymru yn ystod y flwyddyn hyd at Ch2 2026

Mae'r SYG yn cynghori cymryd rhywfaint o ofal wrth ddehongli data masnach gan fod ffigurau fel arfer yn cael eu cyhoeddi mewn prisiau cyfredol neu enwol (sy'n golygu nad ydynt wedi'u haddasu i gael gwared ar effeithiau chwyddiant).

Ar gyfer y cyfnod hyd at Ch2 2026, mae'r data masnach mewn nwyddau ar gyfer rhanbarthau'r DU yn dangos bod gostyngiad wedi bod yng ngwerth allforion o'r Alban ond cynnydd yng ngwerth allforion o Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn y deuddeg mis a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2026 o'i gymharu â'r deuddeg mis blaenorol.[26] Cynyddodd gwerth y nwyddau a allforiwyd o Gymru 5.3% i £20.00 biliwn yn y deuddeg mis a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2026 (o'i gymharu â gostyngiad o 8.9% yn yr Alban, a chynnydd o 3.2% yn Lloegr a 3.6% yng Ngogledd Iwerddon).

Cynyddodd cyfanswm gwerthoedd allforio nwyddau yng Nghymru mewn categorïau cynnyrch dethol dros y flwyddyn hyd at fis Mehefin 2026.[27] Cynyddodd gwerth allforio peiriannau ac offer cludo i £9.93 biliwn yn y flwyddyn a ddaeth i ben yn Ch2 2026, o £9.24 biliwn yn y deuddeg mis blaenorol, cynnydd o 7.5%. Cododd gwerth tanwydd mwynol, ireidiau a deunyddiau cysylltiedig i £3.26 biliwn yn y flwyddyn a ddaeth i ben yn Ch2 2026 o £2.77 biliwn yn y deuddeg mis blaenorol, cynnydd o 17.7%. Fodd bynnag, gostyngodd gwerth y nwyddau a weithgynhyrchwyd a ddosbarthwyd yn bennaf yn ôl deunydd i £2.16 biliwn yn y flwyddyn a ddaeth i ben yn Ch2 2026 o £2.35 biliwn yn y deuddeg mis blaenorol, gostyngiad o 8.3%.

Cyfanswm nifer yr allforwyr yng Nghymru yn Ch2 2026 oedd 3,054, gostyngiad o 0.7% o Ch2 2025 lle roedd y ffigur yn 3,076 (gan ddefnyddio'r Dull Rhif Cyfan).[28] Yn yr un cyfnod, bu gostyngiad o 2.3% ar gyfer y DU gyfan.[29] Dangosodd data maint masnach a gyhoeddwyd gan Gyllid a Thollau EF ar gyfer y flwyddyn hyd at Ch2 2026 fod crynswth net o 7.48 biliwn cilogram wedi'i allforio o Gymru, sef gostyngiad o 0.7% o'r deuddeg mis blaenorol.[30]

Mae bregusrwydd parhaus Cymru i newidiadau mewn galw byd-eang ac amodau masnach yn cael ei ddatgelu yn y data ar gyfer masnach nwyddau rhyngwladol. Dros y flwyddyn hyd at Ch2 2026, cynyddodd cyfanswm gwerth allforio Cymru yn ôl cynhyrchion i'r Unol Daleithiau i £2.85 biliwn, o £2.72 biliwn yn y deuddeg mis blaenorol, cynnydd o 5.1%.[31] Yr Unol Daleithiau oedd yr ail wlad gyrchfan uchaf (yn ôl gwerth) ar gyfer allforion o Gymru, gyda'r Almaen y brif gyrchfan yn y flwyddyn hyd at Ch2 2026.

Yn y flwyddyn hyd at fis Mehefin 2026, cynyddodd gwerth y nwyddau a fewnforiwyd i Gymru 4.8% i £21.58 biliwn o'i gymharu â'r deuddeg mis blaenorol. Mae hyn o'i gymharu â chynnydd yng ngwerth mewnforion yn yr Alban o 6.8%, yn Lloegr o 6.5%, a Gogledd Iwerddon o 2.0%.[32]

Yng Nghymru, cyfanswm y mewnforwyr yn Ch2 2026 oedd 7,590, gostyngiad o 5.7% o'i gymharu â'r ffigur yn Ch2 2025. Yn y DU cynyddodd cyfanswm y mewnforwyr 3.8% dros yr un cyfnod.[33] Dangosodd data cyfaint masnach a gyhoeddwyd gan Gyllid a Thollau EF, ar gyfer y flwyddyn hyd at Ch2 2026, fod màs net o 16.10 biliwn cilogram wedi'i fewnforio i Gymru, cynnydd o 5.4% o'r flwyddyn flaenorol hyd at ddiwedd Ch2 2025.[34]

[26] https://www.uktradeinfo.com/trade-data/regional/2026/uk-regional-trade-in-goods-statistics-second-quarter-2026/
[27] https://www.llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-dangosfwrdd-rhyngweithiol
[28] "Dull rhif cyfan": Mae busnes yn cyfrif fel 1 ym mhob rhanbarth lle mae ganddo weithwyr.
[29] https://www.uktradeinfo.com/trade-data/regional/2026/uk-regional-trade-in-goods-statistics-second-quarter-2026/#datasets
[30] https://www.llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-dangosfwrdd-rhyngweithiol
[31] https://www.llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-dangosfwrdd-rhyngweithiol
[32] https://www.uktradeinfo.com/trade-data/regional/2026/uk-regional-trade-in-goods-statistics-second-quarter-2026/
[33] https://www.uktradeinfo.com/trade-data/regional/2026/uk-regional-trade-in-goods-statistics-second-quarter-2026/#datasets
[34] https://www.llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-dangosfwrdd-rhyngweithiol

Rhagolygon economi'r DU

Cyhoeddwyd cymhariaeth o'r rhagolygon annibynnol a dderbyniwyd rhwng 9 a 14 Medi 2026 yn Rhagolygon Trysorlys EF ar gyfer Economi'r DU ym mis Medi 2026.[35] Cyfartaledd y rhagolygon newydd ar gyfer twf CDG y DU yn 2026 oedd 1.2%, cynnydd o 0.1 pwynt canran o'r hyn a ragwelwyd gan gyfartaledd y rhagolygon newydd yng nghyhoeddiad Awst 2026.[36]

Dengys Atodiad 2 yr adroddiad hwn grynodeb o ragolygon CDG dethol ar gyfer y DU ar gyfer 2026 a 2027, ynghyd â rhagolygon ar gyfer cyfradd Diweithdra'r Arolwg o'r Llafurlu, a'r twf mewn prisiau ar gyfer chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr, a'r Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI).

[35] https://www.gov.uk/government/statistics/forecasts-for-the-uk-economy-september-2026
[36] https://www.gov.uk/government/statistics/forecasts-for-the-uk-economy-august-2026


- Mae hyder busnesau bach y DU yn parhau i fod yn wan yn Ch2 2026.
- Soniodd 21.7% o fusnesau bach a chanolig y DU am dwf yn ystod Ch2 2026.
- Roedd nifer y marwolaethau busnes yng Nghymru yn fwy na nifer y genedigaethau busnes yn ystod Ch2 2026.
- Mae gweithgaredd adeiladu'r DU yn parhau i fod yn wan.

Gostyngodd hyder busnesau bach y DU yn Ch2 2026

Cofnododd Mynegai Busnesau Bach y DU (SBI) y Ffederasiwn Busnesau Bach (FfBB)[37] ostyngiad mewn hyder busnesau yn ystod ail chwarter 2026 i -57.4, o -52.5 yn Ch1 2026.[38] Mae Ffigur 3.1 yn dangos tuedd Mynegai Busnesau Bach Ffederasiwn y Busnesau Bach rhwng Ch2 2024 a Ch2 2026.

Gostyngodd canran y busnesau bach a nododd dwf refeniw dros y tri mis blaenorol i arolwg FfBB yn ystod Ch2 2026 i 21.7%, i lawr o 29.1% yn ystod Ch1 2026, tra nododd 55.3% o fusnesau bach ostyngiad mewn refeniw dros yr un cyfnod. Yn y cyfamser, roedd disgwyliadau busnesau bach ar gyfer twf refeniw dros y 12 mis nesaf yn 17.8% yn ystod Ch2 2026, yr isaf a gofnodwyd erioed gan Fynegai Busnesau Bach FfBB, tra disgwyliai 31.5% o fusnesau bach grebachu, gwerthu neu gau'n gyfan gwbl dros y deuddeg mis nesaf.

Ffigur 3.1. ***Mynegai Hyder Busnesau Bach y DU, Ch2 2024 - Ch2 2026***



Ffynhonnell: Mynegai Busnesau Bach FfBB[39]

[37] Mae'r FfBB yn esbonio: 'Mae'r Mynegai Busnesau Bach yn fynegai wedi'i bwysoli o'r ymatebion i'r cwestiwn: "O ystyried eich perfformiad busnes cyffredinol, ac anwybyddu unrhyw amrywiadau tymhorol arferol ar yr adeg hon o'r flwyddyn, sut ydych chi'n gweld rhagolygon busnes dros y tri mis nesaf, o gymharu â'r tri mis blaenorol?" Mae cyfran y cwmniau sy'n crybwyll llawer gwell yn cael y pwysiad +2, ychydig yn well +1, tua'r un peth 0, ychydig yn waeth -1, a llawer gwaeth -2; mae'r Mynegai Busnesau Bach yn deillio o swm y ffactorau hyn'.

[38] Nododd Ffederasiwn y Busnesau Bach nad oedd maint y sampl ar gyfer Cymru yn ddigonol ar gyfer adrodd yn gywir yn ystod Ch2 2026.


[39] Mynegai Busnesau Bach FfBB www.fsb.org.uk/resources/reports/small-business-index

Cofnododd pob sector ddarlleniadau negyddol ar y Mynegai Busnesau Bach yn ystod Ch2 2026

Yn ystod Ch2 2026 parhaodd pob sector i gofnodi darlleniadau negyddol ar y Mynegai Busnesau Bach, gyda gwasanaethau llety a bwyd (-93.7), masnach gyfanwerthol a manwerthu (-77.4), ac adeiladu (-64.6) fel y sectorau tawelaf.

Mae Ffigur 3.2 yn dangos Mynegai Busnesau Bach Sectoraidd y FfBB ar gyfer Ch2 2026.

Ffigur 3.2. ***Mynegai Busnesau Bach Sectoraidd FfBB Ch2 2026***



Yr economi ddomestig yw prif achos pryder busnesau bach a chanolig o hyd

Parhaodd yr economi ddomestig i fod y rhwystr a grybwyllid amlaf i dwf busnesau bach yn Ch2 2026, ac roedd y baich treth a'r costau llafur yn parhau i fod y rhwystrau nesaf a grybwyllwyd fynychaf. Cyfeiriodd nifer cynyddol o fusnesau at alw defnyddwyr a chostau tanwydd fel rhwystrau i dwf busnes yn ystod Ch2 2026. Mynediad at gyllid a chost cyllid oedd y rhwystrau rhag twf a grybwyllwyd leiaf.

Gostyngodd Monitor Hyder Busnes (BCM) Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr (ICAEW) ar gyfer Ch2 2026 hefyd, gan nodi bod hyder busnes cyffredinol y DU ar -14.6, y lefel isaf ers Ch4 2022. Mae'r mynegai yn parhau i fod ymhell islaw ei norm hanesyddol o +5.3.[40] Nododd y Monitor Hyder Busnes fod hyder busnes rhanbarthol mewn tiriogaeth negyddol ym mhob rhanbarth a chenedl y DU ac eithrio Swydd Efrog a Humber yn ystod Ch2 2026, gyda hyder yn gostwng yn sylweddol ym mhob rhanbarth arall. Gostyngodd hyder busnesau yng Nghymru yn ôl i -14.1 (i lawr o -3.7 yn Ch1 2026).

Mae Mynegai Busnesau Bach (MBB) diweddaraf y FfBB yn deillio o arolwg a gynhaliwyd ymhlith 1,113 o berchnogion busnesau bach ac unig fasnachwyr, a gynhaliwyd rhwng 9-23 Mehefin 2026. Mae canlyniadau arolwg BCM ICAEW yn seiliedig ar 1,000 o gyfweliadau ffôn â Chyfrifwyr Siartredig ICAEW sy'n cwmpasu ystod o sectorau, rhanbarthau a meintiau cwmnïau yn y DU. Mae'r arolwg diweddaraf y Monitor Hyder Busnes yn cwmpasu'r cyfnod 13 Ebrill i 19 Mehefin 2026. Un o'r prif wahaniaethau o ran methodoleg rhwng yr arolygon hyn yw bod arolwg y Mynegai Busnesau Bach yn canolbwyntio ar fusnesau bach, a'r Monitor Hyder Busnes yn cynnwys cwmnïau o bob maint.

Adroddodd 27% o fusnesau bach a chanolig y DU dwf dros y 12 mis blaenorol hyd at fis Gorffennaf 2026

Soniodd SME Finance Monitor UK[41] fod 27% sefydlog o'r holl fusnesau bach a chanolig a ymatebodd yn y DU (ac eithrio busnesau newydd eu sefydlu) wedi nodi twf dros y 12 mis blaenorol hyd at ddiwedd Gorffennaf 2026. Mae hyn yn unol â 2025, ond mae'n parhau i fod ymhell islaw'r lefel nodweddiadol cyn y pandemig o tua 40%. Parhaodd profiad i amrywio'n sylweddol yn ôl maint busnesau bach a chanolig, gyda 57% o fusnesau yn y DU yn cyflogi 50-249 o weithwyr, 45% o'r rhai hynny yn cyflogi 10-49, 35% yn cyflogi 1-9, a 23% o'r rhai hynny heb weithwyr cyflogedig, yn profi twf.

Adroddodd y Monitor Cyllid hefyd, hyd at fis Gorffennaf 2026, fod 48% o fusnesau bach a chanolig wedi rhestru'r hinsawdd economaidd a 40% wedi rhestru ansicrwydd gwleidyddol fel y rhwystrau mwyaf arwyddocaol i'w twf. O edrych ymlaen, roedd gan 64% o fusnesau bach a chanolig sy'n cyflogi 50-249, 62% yn cyflogi 10-49, 53% yn cyflogi 1-9 o weithwyr, a 44% heb weithwyr, gynlluniau i dyfu eu busnesau.


[40] Eglura ICAEW: 'mae canlyniadau'r arolwg yn seiliedig ar 1,000 o gyfweliadau ffôn ymhlith Cyfrifwyr Siartredig ICAEW sy'n cwmpasu ystod o sectorau, rhanbarthau a meintiau cwmnïau yn y DU, gan sicrhau darlun cynrychioliadol o economi'r DU'. www.icaew.com/technical/economy/business-confidence-monitor/business-confidence-monitor-national

[41] https://www.ipsos.com/en-uk/sme-finance-monitor#reports

Roedd nifer y marwolaethau busnes yng Nghymru yn fwy na nifer y genedigaethau busnes

Adroddodd y SYG gyfanswm amcangyfrifedig o 79,325 o enedigaethau busnes yn y DU, a gofnodwyd fel cofrestriadau TAW/PAYE newydd, yn ystod Ch2 2026, o'i gymharu â 76,840 o farwolaethau busnes. Mae Ffigur 3.3 yn datgelu'r amrywiad o enedigaethau a marwolaethau busnes chwarterol yng Nghymru dros y cyfnod rhwng Ch2 2023 a Ch2 2026.[42] Nifer y genedigaethau busnes yng Nghymru yn Ch2 2026 oedd 2,535 (i fyny o 2,505 yn Ch1 2026), tra bo nifer y marwolaethau busnesau yn ystod yr un cyfnod yn 2,780 (i lawr o 2,920 yn Ch1 2026).

Ffigur 3.3. ***Demograffeg busnes chwarterol yng Nghymru, Ch2 2023 – Ch2 2026***



Ffynhonnell: SYG Demograffeg Busnes, Ystadegau Arbrofol Chwarterol, y DU.[43]

[42] https://www.uktradeinfo.com/trade-data/regional/2026/uk-regional-trade-in-goods-statistics-second-quarter-2026/
[43] www.ons.gov.uk/businessindustryandtrade/business/activitysizeandlocation/datasets/businessdemographyquarterlyexperimentalstatisticsuk

Arolwg Effeithiau ac Amodau Busnes

Adroddodd Arolwg Effeithiau ac Amodau Busnes (BICS) y SYG ar gyfer 1 i 31 Gorffennaf (ton 162)[44] fod 33.3% o fusnesau Cymru a arolygwyd wedi cael mwy o drosiant ym mis Gorffennaf 2026 o'i gymharu â'r mis blaenorol (28.5% yn y DU). Roedd tua 28.3% o fusnesau a arolygwyd yng Nghymru yn disgwyl i drosiant gynyddu ym mis Medi 2026 o'i gymharu â chyfartaledd y DU o 24.1%.[45]

Datgelodd y BICS hefyd, yn ystod mis Gorffennaf 2026, fod 19.5% o'r busnesau a arolygwyd yng Nghymru (21.5%) wedi dweud bod prisiau nwyddau a gwasanaethau a brynwyd gan eu busnesau wedi cynyddu o'i gymharu â'r mis blaenorol. Yn y cyfamser, dywedodd 9.4% o fusnesau a arolygwyd yng Nghymru (9.8% yn y DU) fod prisiau nwyddau a gwasanaethau a werthwyd gan eu busnesau wedi cynyddu o'i gymharu â'r mis blaenorol.

Dywedodd tua 17.4% o gwmnïau Cymru eu bod yn disgwyl i'w nifer o weithwyr gynyddu ym mis Medi 2026 (15.1% yn y DU). O'i gymharu â'r un cyfnod yn 2025, roedd 31.5% o fusnesau Cymru a arolygwyd o'r farn bod eu perfformiad wedi cynyddu (27.5% yn y DU), gyda 16.6% yn credu ei fod wedi gostwng (19.1% yn y DU). O ran disgwyliadau yn y dyfodol, roedd 36.8% o fusnesau Cymru yn disgwyl y byddai eu perfformiad yn cynyddu yn y flwyddyn i ddod (31.9% yn y DU).

[44] www.ons.gov.uk/economy/economicoutputandproductivity/output/datasets/businessinsightsandimpactontheukeconomy


[45] Er mwyn cyflwyno data Cymru (a data cymharol y DU) ar gyfer y cyfnod hwn, bu'n angenrheidiol defnyddio data heb ei bwysoli sy'n dangos canlyniadau ymatebwyr arolwg y SYG yn unig, nad yw wedi'i addasu i gynrychioli nodweddion busnes ehangach Cymru (y DU).

Ansolfedd busnes

Mae Ffigur 3.4 yn dangos y duedd o ran ansolfedd cwmnïau cofrestredig yng Nghymru a Lloegr rhwng Gorffennaf 2024 a Gorffennaf 2026. Cyfanswm yr achosion ansolfedd misol ym mis Gorffennaf 2026 oedd 1,931, yn is na 12 mis ynghynt, pan oedd 2,053 o achosion ansolfedd.

Caiff y gyfradd gyffredinol hon ei sbarduno gan ddatodiadau gwirfoddol credydwyr, a oedd yn 1,497 ym mis Gorffennaf 2026, tra roedd nifer y datodiadau gorfodol yn 288 yn yr un mis

Ffigur 3.4. ***Ansolfedd cwmnïau cofrestredig misol, Cymru a Lloegr, Gorffennaf 2024 – Gorffennaf 2026 (wedi'i addasu'n dymhorol)***



Ffynhonnell: Ystadegau Misol Ansolfedd Llywodraeth y DU[46]

Gall dyfarniadau Llys Sirol ar gyfer dyled nodi ansolfedd posibl yn y dyfodol yn rhan o duedd ehangach. Dengys data dros dro fod cyfanswm o 571,000 o hawliadau Llys Sirol yn ystod Ch2 2026, sef cynnydd o 11% o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2025. O'r rhain, roedd 87% yn hawliadau ariannol, 13% yn fwy na'r un chwarter yn 2025.[47]


[46] www.gov.uk/government/collections/company-insolvency-statistics-releases
[47] https://www.gov.uk/government/collections/civil-justice-statistics-quarterly#2024

Cynyddodd prisiau tai yng Nghymru 1.8% yn y flwyddyn hyd at fis Mehefin 2026

Dengys data'r SYG sy'n cofnodi pryniannau arian parod a morgais mai £213,162 oedd y pris tŷ cyfartalog yng Nghymru ym mis Mehefin 2026, sy'n gynnydd o 1.8% ers Mehefin 2025. Yn gyffredinol, cynyddodd prisiau tai yn y DU 2.0% yn y 12 mis hyd at fis Mehefin 2026, a phris tŷ cyfartalog y DU ym mis Mehefin 2026 oedd £272,000, a oedd £5,000 yn uwch na 12 mis ynghynt.[48]

Adroddodd Banc Lloegr fod[49] cymeradwyaethau morgeisi net ar gyfer prynu tai ym mis Gorffennaf 2026 yn 56,100, tra roedd benthyca net o ddyled morgais gan unigolion yn £4.3 biliwn ym mis Gorffennaf. Yn y cyfamser, adroddodd y Banc hefyd fod y gyfradd llog effeithiol (y gyfradd llog wirioneddol a dalwyd) ar forgeisi newydd wedi cynyddu i 4.45% ym mis Gorffennaf (o 4.35% ym mis Mehefin) ac wedi codi i 3.97% ar y stoc sy'n weddill o forgeisi (o 3.96% ym mis Mehefin). Cynyddodd cymeradwyaethau ail-forgeisio i 34,500 ym mis Gorffennaf o 34,100 ym mis Mehefin, ond mae'n bwysig nodi bod y data hyn yn cynnwys cymeradwyaethau ail-forgeisio gyda benthyciwr gwahanol yn unig.

Ffigur 3.5. ***Mynegai Prisiau Tai SYG Cymru a'r DU, newid canrannol blynyddol, Mehefin 2024 – Mehefin 2026***



Ffynhonnell: Mynegai Prisiau Tai y SYG[50]

[48] www.gov.uk/government/collections/uk-house-price-index-reports
[49] www.bankofengland.co.uk/news/?NewsTypes=571948d14c6943f7b5b7748ad80bef29&Taxonomies=65c741d9573d48c09359a3c48020fe76&InfiniteScrolling=False&Direction=Latest
[50] www.gov.uk/government/collections/uk-house-price-index-reports

Gweithgaredd adeiladu yn y DU yn profi gostyngiad cyson

Cofrestrodd Mynegai Rheolwyr Prynu Adeiladu y DU S&P Global[51] 44.3 ym mis Awst 2026, i lawr o 44.7 ym mis Gorffennaf, gan aros yn is na'r trothwy niwtral o 50.0 am yr ugeinfed mis yn olynol. Adeiladu preswyl oedd y maes gweithgaredd gwannaf ym mis Awst, gan gofrestru 37.6, tra bo adeiladu masnachol wedi cofnodi 47.8, a pheirianneg sifil 40.5. Yn y cyfamser, yn ei Adroddiad Polisi Ariannol, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf, adroddodd Banc Lloegr fod gweithgaredd y farchnad dai yn parhau i fod yn wan[52].

Mae perfformiad y farchnad eiddo masnachol yn parhau i fod yn gymysg yn 2026

Mae marchnad eiddo masnachol y DU wedi parhau i ddangos arwyddion cymysg yn ystod 2026, gyda rhywfaint o arwydd o adferiad mewn lleoliadau gorau ochr yn ochr â heriau parhaus mewn mannau eraill. Yn 2026, mae marchnad eiddo masnachol y DU wedi profi galw cadarn am denantiaid a niferoedd isel o lefydd gwag, yn enwedig yn Llundain lle rhagwelir y bydd cyfraddau'r llefydd gwag yn sero erbyn 2028[53], a lleoliadau gorau eraill[54]. Mae marchnadoedd buddsoddi wedi cael eu cyfyngu gan risgiau geo-wleidyddol byd-eang parhaus[55] ac mae buddsoddwyr yn parhau i fod yn ddetholus iawn.[56]

[51] www.pmi.spglobal.com/Public/Release/PressReleases
[52] www.bankofengland.co.uk/monetary-policy-report/monetary-policy-report
[53] www.ft.com/content/7cce7c38-bce2-4718-b6e7-d0f4ae4c8751?syn-25a6b1a6=1
[54] www.ft.com/content/ffd4951c-b623-4ad3-bfde-562f2207c8e0?syn-25a6b1a6=1
[55] www.ft.com/content/56a57f36-dae2-4413-ba18-2a081ad7ef6c?syn-25a6b1a6=1
[56] www.ft.com/content/9b696d24-da71-4fdf-8738-feb792e83781

- Yn ystod Ch2 2026 cynyddodd benthyciadau gros i fusnesau bach a chanolig y DU gan brif fanciau'r stryd fawr 26% o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2025.
- Roedd 56% o fusnesau bach a chanolig wedi defnyddio rhyw fath o gyllid allanol yn y 3 mis hyd at fis Gorffennaf 2026.
- Y gyfradd llog effeithiol ar fenthyciadau newydd i fusnesau bach a chanolig oedd 6.61% ym mis Gorffennaf 2026, i fyny o 5.80% ym mis Gorffennaf 2025.

Y cyflenwad a'r galw am fenthyciadau busnes

Mae Arolwg Amodau Credyd chwarterol Banc Lloegr yn ystyried tueddiadau a datblygiadau yn amodau credyd presennol y DU. Gofynnodd arolwg Ch2 2026 i fenthycwyr roi gwybod am eu newidiadau canfyddedig yn y cyflenwad a'r galw am gredyd ar gyfer y tri mis hyd at ddiwedd Mai 2026, o'i gymharu â'r tri mis a ddaeth i ben ym mis Chwefror 2026.[57]

Gofynnwyd i fenthycwyr hefyd am eu disgwyliadau o ran newidiadau hyd at ddiwedd mis Awst 2026. Cynhaliwyd yr arolwg rhwng 26 Mai a 12 Mehefin 2026 ac nid yw'n ystyried unrhyw newidiadau sydd wedi digwydd ers hynny.

Dywedodd benthycwyr nad oedd argaeledd cyffredinol credyd i'r sector corfforaethol wedi newid yn Ch2 2026. Fodd bynnag, o'u rhannu yn ôl maint y busnes, dywedodd benthycwyr fod argaeledd credyd ar gyfer busnesau bach a chanolig wedi gostwng ychydig ac nad oedd wedi newid ar gyfer busnesau mawr yn Ch2 2026. Eglurodd Banc Lloegr y gallai'r gwahaniaeth hwn fodoli gan y gallai benthycwyr unigol grybwyll mwy o argaeledd ar gyfer un maint o fusnes, gydag argaeledd heb newid ar gyfer busnesau o feintiau eraill ac felly ar gyfer cwmnïau corfforaethol yn gyffredinol. Disgwylid i argaeledd cyffredinol credyd i'r sector corfforaethol fod yn ddigyfnewid yn Ch3 2026.

Yn y cyfamser, dywedodd benthycwyr fod y galw am fenthyca gan fusnesau bach a chanolig wedi gostwng ac nad oedd wedi newid ar gyfer busnesau mawr yn Ch2 2026. Disgwylid i'r galw fod yr un fath ar gyfer pob maint busnes yn ystod Ch3 2026.

Canfu UK Finance fod benthyciadau gros cyffredinol gan y prif fenthycwyr stryd fawr i fusnesau bach a chanolig yn ystod Ch2 2026 26% yn uwch na'r un chwarter flwyddyn yn ôl. Ar £5.35 biliwn, cyrhaeddodd benthyca gros uchafswm newydd ers y cyfnod ar ôl y pandemig.[58]


[57] www.bankofengland.co.uk/credit-conditions-survey/2026/2026-q2
[58] www.ukfinance.org.uk/data-analysis/data

Roedd 56% o fusnesau bach a chanolig wedi defnyddio rhyw fath o gyllid allanol yn y 3 mis hyd at fis Gorffennaf 2026

Canfu'r Monitor Cyllid BBaCh fod 56% o fusnesau bach a chanolig y DU wedi defnyddio rhyw fath o gyllid allanol yn y 3 mis hyd at ddiwedd Gorffennaf 2026.[59] O ran mathau o gyllid, cardiau credyd (23%) oedd y math o gyllid a ddefnyddiwyd amlaf ymhlith busnesau bach a chanolig y DU. Yn y cyfamser, gorddrafftiau (18%) oedd y nesaf a ddefnyddiwyd amlaf, ac yna prydlesu a Hurbwrcas (13%), benthyciad banc neu forgais (9%), a grantiau (2%).

Mae Ffigur 4.1 yn dangos canran y busnesau bach a chanolig ym mhob Cenedl/Rhanbarth y DU sy'n crybwyll argraff y bu'n anodd sicrhau cyllid busnes yn ystod y 3 mis hyd at ddiwedd Gorffennaf 2026. Crybwyllodd 38% o fusnesau bach a chanolig Cymru argraff o'r fath, roedd hyn yn uwch na'r 34% a gofrestrwyd yn Ch1 2026.

Ffigur 4.1 ***Argraff busnesau bach a chanolig rhanbarthau/cenhedloedd y DU o anhawster sicrhau cyllid, yn y 3 mis rhwng Mai a Gorffennaf 2026, o ran %***




Ffynhonnell: SME Finance Monitor[60]

[59] www.bankofengland.co.uk/credit-conditions-survey/2026/2026-q2
[60] www.ipsos.com/en-uk/sme-finance-monitor#reports

Roedd y gyfradd llog gyfartalog ar fenthyciadau BBaCh ym mis Gorffennaf 2026 yn uwch na 12 mis ynghynt

Mae Ffigur 4.2 yn dangos cyfradd twf misol benthyciadau BBaCh, a'r gyfradd llog wedi'i phwysoli yn seiliedig ar ddata Banc Lloegr ar gyfer y cyfnod Gorffennaf 2025 i Orffennaf 2026.[61] Arhosodd cyfradd twf benthyca gan fusnesau bach a chanolig yn sefydlog ar 4.1% yn ystod mis Gorffennaf 2026. Yn y cyfamser, cododd y gyfradd llog effeithiol ar fenthyciadau newydd i fusnesau bach a chanolig i 6.61% ym mis Gorffennaf 2026, i fyny o 6.36% ym mis Mehefin 2026 a 5.80% ym mis Gorffennaf 2025.

Ffigur 4.2. ***Cyfradd twf benthyciadau BBaCh a benthyciadau cyfradd llog effeithiol i fusnesau bach a chanolig, Gorffennaf 2025 – Gorffennaf 2026, o ran %***



Ffynhonnell: Banc Lloegr[62]

[61] Cyfartaledd misol cyfradd llog gyfartalog wedi'i bwysoli sterling banciau preswyl y DU - benthyciadau eraill, cyfradd gyfnewidiol sy'n gysylltiedig â'r Gyfradd Banc (<3 mis o ailosod) i fentrau bach a chanolig (mewn canran) heb ei haddasu'n dymhorol.


[62] www.bankofengland.co.uk/news/?NewsTypes=571948d14c6943f7b5b7748ad80bef29&Taxonomies=65c741d9573d48c09359a3c48020fe76&InfiniteScrolling=False&Direction=Latest

Cyfaint y benthyca i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru

Fel yr adroddwyd yn flaenorol, nododd data benthyca BBaCh UK Finance a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer codau post y DU ostyngiad mewn benthyca i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru yn ystod 2025[63]. Gostyngodd y cyfaint benthyca cyffredinol o oddeutu £3.855 biliwn yn H2 2024 i £3.548 biliwn yn H2 2025. Disgwylir i'r data ar gyfer H1 2026 gael ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2027.

Mae Ffigur 4.3 yn dangos benthyca busnesau bach a chanolig yn ôl ardal cod post yng Nghymru rhwng H1 2022 a H2 2025. Yn ystod H2 2025, derbyniodd cod post ardal Abertawe £1,109,527,317 o fenthyciadau, derbyniodd Llandudno £896,014,358, Caerdydd £822,472,955, Casnewydd £423,019,307, a Llandrindod £296,907,514.

Ffigur 4.3. ***Benthyciadau Busnesau Bach a Chanolig, Ardal Cod Post yng Nghymru, H1 2022 – H2 2025***



Ffynhonnell: Data Cod Post Benthyciadau Busnesau Bach a Chanolig UK Finance[64]

[63] www.ukfinance.org.uk/data-and-research/data/sme-lending-within-uk-postcodes
[64] www.ukfinance.org.uk/data-and-research/data/sme-lending-within-uk-postcodes

Buddsoddiadau ecwiti


Caiff buddsoddiadau ecwiti mewn busnesau bach a chanolig eu hwyluso gan endidau megis cronfeydd cyfalaf menter, buddsoddwyr angel, llwyfannau cyllido torfol, corfforaethau, a chronfeydd llywodraethol, a gellir eu defnyddio ar draws gwahanol gamau datblygu busnes.[65] Gostyngodd gwerthoedd buddsoddi ecwiti busnesau llai yn y DU 4% yn ystod 2025.[66] Fel yr adroddwyd yn flaenorol, er bod Cymru wedi gweld cynnydd o 1% yng nghyfanswm gwerth buddsoddi yn ystod 2025, gostyngodd nifer cyffredinol y cytundebau yng Nghymru 45% (DU -17%) a phrofodd yr ail y nifer isaf o gytundebau o holl genhedloedd a rhanbarthau'r DU (cyfanswm o 45). Nodir buddsoddiadau ecwiti Banc Datblygu Cymru yn yr adran ganlynol, gyda gwerth y buddsoddiadau hyn yn cynyddu yn ystod chwe mis cyntaf 2026.

Diweddariad risg credyd busnesau bach a chanolig yng Nghymru

Chwiliwyd cronfa ddata FAME Bureau van Dijk o ddata Tŷ'r Cwmnïau ym mis Medi 2026 i chwilio am dystiolaeth o gyfran busnesau bach a chanolig yng Nghymru a oedd mewn gwahanol gategorïau risg credyd. Cynhyrchodd y chwiliad 104,418 o fusnesau bach a chanolig gyda sgôr credyd hysbys. Mae Ffigur 4.4 yn datgelu, o'r cyfanswm hwn, yr amcangyfrifwyd bod 5.6% o fusnesau bach a chanolig yng Nghymru yn y categori sgôr credyd risg uchaf (i lawr o 5.9% ym mis Ebrill 2026 ond yn dal i gyfateb i amcangyfrif o 5,888 o fentrau yng Nghymru). Roedd y categori Gofalus yn cynnwys 55,841 o fusnesau bach a chanolig neu 53.5% o'r cyfanswm. Yn gyffredinol, mae'r cyfrannau hyn yn eithaf araf i newid, a diweddariadau i sgôr credyd yn dod ar wahanol gyfnodau yn ôl pryd mae data newydd yn cael ei uwchlwytho i gronfa ddata FAME.

[65] https://developmentbank.wales/sites/default/files/2019-04/Equity%20Clusters%20Report_final.pdf
[66] www.british-business-bank.co.uk/about/research-and-publications

Ffigur 4.4. *Amcangyfrifon o gyfrannau busnesau bach a chanolig yng Nghymru mewn gwahanol gategorïau graddio credyd (Medi 2026)*



Ffynhonnell: Data Fame

- Yn Ch1 2026/27, cwblhaodd Banc Datblygu Cymru 151 o fuddsoddiadau gyda chyfanswm gwerth o £48.4 miliwn. Roedd y buddsoddiadau hyn yn gysylltiedig â bron i 1,140 o swyddi newydd a swyddi wedi'u diogelu.
- Busnesau yn rhanbarth de-ddwyrain Cymru oedd yn cyfrif am y gyfran uchaf o werth buddsoddi (bron i 55%) yn Ch1 2026/27 ac a sicrhaodd bron i 52% o gyfanswm y swyddi yn yr un cyfnod.
- Yn Ch1 2026/27, sicrhaodd busnesau yn y sector adeiladu draean o'r buddsoddiadau yn ôl gwerth (£13.7 miliwn).
- Roedd nifer uchaf y swyddi a grëwyd neu a ddiogelwyd gan fuddsoddiadau'r Banc Datblygu yn Ch1 2026/27 yn y sector iechyd dynol a gwaith cymdeithasol (193 o swyddi). Sicrhaodd busnesau yn y sector hwn £6.8 miliwn o fuddsoddiad yn y cyfnod hwn.


Cwblhaodd y Banc Datblygu 151 o fuddsoddiadau yn Ch1 2026/27, gan gefnogi bron i 1,140 o swyddi

Mae Ffigur 5.1 yn dangos gostyngiad yn nifer y buddsoddiadau a wnaed gan Fanc Datblygu Cymru yn Ch1 2026/27 o'i gymharu â'r chwarter blaenorol. Fodd bynnag, mae nifer y buddsoddiadau a wnaed yn Ch1 2026/27 yn uwch na lefelau'r cyfnodau eraill a ddangosir yn Ffigur 5.1.

Yn Ch1 2026/27 roedd tua 60% o gytundebau ar gyfer 'tyfu busnes', gyda 15% arall ar gyfer 'dechrau busnes'. Yn y flwyddyn hyd at Ch1 2026/27 gwnaed cyfanswm o bron i 580 o fuddsoddiadau gan y Banc Datblygu.[67]

[67] Mae dyraniadau cyllideb Llywodraeth Cymru yn dylanwadu ar y cyllid sydd ar gael ar gyfer gweithgareddau buddsoddi'r Banc Datblygu. Bydd amrywiaeth o ffactorau eraill hefyd yn sail i lefelau buddsoddi ac argaeledd cyllid, gan gynnwys gwerthoedd ad-dalu benthyciadau a'r galw am gyllid.

Ffigur 5.1. *Buddsoddiadau a swyddi a grëwyd ac a ddiogelwyd, Ch2 2025/26 – Ch1 2026/27*



Nifer y swyddi a grëwyd neu a ddiogelwyd oedd yn gysylltiedig â buddsoddiadau'r Banc Datblygu oedd 1,136 yn Ch1 2026/27. Mae hyn yn ostyngiad o'i gymharu â'r chwarter blaenorol, ond eto yn gynnydd ar gyfanswm y swyddi ar gyfer Ch2 2025/26 a Ch3 2025/26 a chynnydd o'i gymharu â'r un chwarter yn y flwyddyn flaenorol (916 o swyddi yn Ch1 2025/26). Roedd tua thri chwarter y swyddi yn Ch1 2026/27 yn swyddi wedi'u diogelu, ac roedd tua chwarter yn swyddi a grëwyd. Yn ystod y pedwar chwarter diwethaf, roedd 34% o gyfanswm y swyddi ar gyfartaledd yn swyddi a grëwyd.


Mae angen bod yn ofalus wrth ddehongli data buddsoddi chwarterol a all fod yn gyfnewidiol ac a all gael ei ddylanwadu gan nifer fach o fuddsoddiadau sylweddol, yn enwedig pan fo crynodiadau sectoraidd neu ranbarthol yn bresennol.

Cyfanswm gwerth y buddsoddiadau a wnaed yn ystod Ch1 2026/27 oedd £48.4 miliwn

Mae Ffigur 5.2 yn dangos bod dyled newydd a buddsoddiad ecwiti yn Ch1 2026/27 yn £38 miliwn, gyda £10.4 miliwn arall o fuddsoddiad mewn datblygu eiddo. Mae cyfanswm gwerth y buddsoddiad ar gyfer Ch1 2026/27 (£48.4 miliwn) yn uwch na'r tri chwarter blaenorol a ddangosir yn Ffigur 5.2. Mae'r cynnydd o ganlyniad i ddyled a buddsoddiadau ecwiti, a oedd bron i £7 miliwn yn uwch na'r chwarter blaenorol, er bod gostyngiad mewn buddsoddiadau eiddo o ychydig dros £12 miliwn yn chwarter olaf y flwyddyn flaenorol, i £10.4 miliwn yn Ch1 2026/27. Roedd bron i hanner y buddsoddiad mewn eiddo (£4.8 miliwn) i fusnesau yng ngogledd Cymru yn Ch1 2026/27.

Cynyddodd buddsoddiad ecwiti (heb ei ddangos ar wahân yn Ffigur 5.2) i £5.7 miliwn yn Ch1 2026/27. Dyma'r gwerth chwarterol uchaf o fuddsoddiad ecwiti ers Ch3 2024/5. Fel yn y chwarteri blaenorol, roedd y rhan fwyaf o'r buddsoddiad ecwiti (£4.1 miliwn) yn Ch1 2026/27 mewn busnesau yn ne-ddwyrain Cymru.

Ffigur 5.2. ***Buddsoddiad newydd yn ôl math o fuddsoddiad, £ miliwn, Ch2 2025/26 - Ch1 2026/27***




Mae dosbarthiad rhanbarthol gweithgarwch buddsoddi yn tueddu i adlewyrchu'n fras wahaniaethau yn y boblogaeth, dwysedd busnes a graddfa prosiectau ledled Cymru. Mae Ffigur 5.3 yn dangos bod busnesau yn ne-ddwyrain Cymru wedi derbyn 55% (£26.5 miliwn) o gyfanswm y cronfeydd buddsoddi yn Ch1 2026/27. Sicrhaodd y busnesau hyn 66 o fuddsoddiadau (44% o'r cyfanswm), a greodd neu a ddiogelodd ychydig dros 585 o swyddi (52% o'r cyfanswm). Ardaloedd yr awdurdodau unedol a sicrhaodd y lefelau uchaf o fuddsoddiadau oedd Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar Ogwr a Blaenau Gwent. Gyda'i gilydd, roedd ardaloedd yr awdurdodau unedol hyn yn cyfrif am bron i hanner gwerth y buddsoddiad yn ne-ddwyrain Cymru.

Derbyniodd busnesau yng nghanolbarth a de-orllewin Cymru dros £14.5 miliwn o gyllid y Banc Datblygu gan 46 o fuddsoddiadau, oedd yn gysylltiedig â 420 o swyddi newydd neu swyddi wedi'u diogelu yn Ch1 2026/27. Busnesau yn ardaloedd awdurdodau unedol Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro a dderbyniodd y lefelau uchaf o fuddsoddiadau yng nghanolbarth a de-orllewin Cymru. Sicrhaodd busnesau yng ngogledd Cymru 39 o fuddsoddiadau a oedd yn werth cyfanswm o £7.4 miliwn ac yn cefnogi ychydig dros 130 o swyddi newydd neu swyddi wedi'u diogelu. Roedd busnesau yn Sir y Fflint yn cyfrif am bron i 50% o'r cronfeydd a fuddsoddwyd yng ngogledd Cymru yn Ch1 2026/27.

Ar gyfartaledd, roedd pob buddsoddiad a wnaed gan y Banc Datblygu yn Ch1 2026/27 yn gysylltiedig â £320,600 o gyllid

Mae'r gwerth buddsoddi cyfartalog yn Ch1 2026/27 yn uwch na'r gwerth yn y chwarter blaenorol (£249,600) ac mae'n debyg i'r uchafswm diweddar o £323,000 yn Ch3 2024/25. Roedd rhywfaint o amrywiad mewn gwerthoedd buddsoddi cyfartalog yn ôl rhanbarth yn Ch1 2026/27, gyda'r rhain yn amrywio rhwng £400,100 yn ne-ddwyrain Cymru, £316,300 yng nghanolbarth a de-orllewin Cymru, a £190,000 yng ngogledd Cymru. Mae gwerthoedd buddsoddi cyfartalog yn amrywio yn ôl sector ac yn ôl math o fuddsoddiad. Er enghraifft, yn Ch1 2026/27 roedd gwerthoedd buddsoddi cyfartalog uchaf ar gyfer buddsoddiadau eiddo, sef £740,400, ac yna buddsoddiadau ecwiti a oedd yn £632,200 ar gyfartaledd. Roedd benthyciadau (buddsoddiad mewn dyled) yn cyfrif am bron i 85% o gyfanswm y cytundebau buddsoddi a wnaed gan y Banc Datblygu yn Ch1 2026/27, gyda gwerth cyfartalog o £252,800.

Ffigur 5.3. *Gwerthoedd buddsoddi, £ miliwn, a swyddi a grëwyd ac a ddiogelwyd yn ôl lleoliad Ch1 2026/27*




Y sector adeiladu oedd yn bwysicaf o ran buddsoddiad yn Ch1 2026/27, gan gyfrif am £13.7 miliwn o gyllid

Mae Ffigur 5.4 yn dangos y sectorau o'r economi a dderbyniodd dros £2 miliwn o gyllid buddsoddi'r Banc Datblygu yn ystod Ch1 2026/27. Sicrhaodd busnesau yn y sector adeiladu tua 28% o gyllid buddsoddi. Roedd yr wyth sector uchaf a ddangosir yn Ffigur 5.4, a restrir yn ôl gwerth buddsoddi, yn cyfrif am 88% o'r holl gyllid buddsoddi, a 70% o swyddi yn Ch1 2026/27. Roedd nifer uchaf y swyddi a grëwyd ac a ddiogelwyd gan fuddsoddiadau'r Banc Datblygu yn Ch1 2026/27 yn y sector iechyd dynol a gwaith cymdeithasol (193 o swyddi), gyda'r sector hwn yn sicrhau £6.8 miliwn o gyllid. Roedd y rhan fwyaf o'r cyllid a'r swyddi yn y sector hwn mewn gweithgareddau gofal preswyl. Creodd neu diogelodd buddsoddiadau'r sector adeiladu 182 o swyddi gyda buddsoddiadau mewn gwasanaethau gweinyddol a chymorth yn gysylltiedig â 163 o swyddi yn Ch1 2026/27.

Ymhlith y sectorau hynny a ddangosir yn Ffigur 5.4, y sectorau uchaf ar gyfer swyddi a grëwyd ac a ddiogelwyd ar gyfer pob £1 miliwn o gronfeydd a fuddsoddwyd oedd gwasanaethau gweinyddol a chymorth (bron i 35 o swyddi ar gyfer pob £1 miliwn a fuddsoddwyd) ac iechyd dynol a gwaith cymdeithasol (ychydig dros 28 o swyddi ar gyfer pob £1 miliwn a fuddsoddwyd). Ar draws pob sector, roedd pob £1 miliwn o gyfanswm y buddsoddiad gan y Banc Datblygu yn Ch1 2026/27 yn cefnogi bron i 24 o swyddi newydd neu swyddi wedi'u diogelu. Wrth eithrio Cronfeydd Eiddo (gweler y nodyn i Ffigur 5.4), roedd pob £1 miliwn o gyllid dyled ac ecwiti yn cefnogi tua 30 o swyddi newydd neu swyddi a ddiogelwyd.

Ffigur 5.4. *Gwerth buddsoddiad, £ miliwn, a swyddi yn ôl sector Ch1 2026/27. Sectorau dethol sydd â gwerthoedd buddsoddi uwch na £2 miliwn*



Nodyn: Ar gyfer rhai cronfeydd a ddefnyddir yn bennaf gan fusnesau yn y sector adeiladu (sy'n ymwneud ag eiddo/adeiladu), nid yw swyddi yn ddangosydd perfformiad allweddol (DPA) felly nid oes unrhyw gyflogaeth, neu gyflogaeth gyfyngedig iawn, yn uniongyrchol gysylltiedig â rhai o'r buddsoddiadau hyn.

Casgliadau

Ni ddisgwylir i fisoedd olaf 2026 weld llawer o ryddhad o'r amodau economaidd heriol yn economi Cymru (a'r DU). Cadwodd Pwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr gyfradd y banc ar 3.75% yn ei gyfarfod ym mis Medi 2026. Fodd bynnag, mae pwysau chwyddiant yn economi'r DU wedi bod yn datblygu ochr yn ochr â chynnydd ym mhris ynni. Mae'r rhyng-ddibyniaeth rhwng rhagolygon economaidd y DU a phrisiau olew a nwy yn parhau i fod yn bryder i Lywodraeth y DU ac ychydig o obaith sydd o gael ateb cyflym i densiynau yn y Dwyrain Canol. Yn yr un modd, nid oes llawer o arwyddion o gynnydd tuag at derfynu'r gwrthdaro yn yr Wcráin.

Yn y DU mae amodau gwariant cyhoeddus yn parhau i fod yn dynn ac mae anwadalrwydd mewn prisiau ynni yn effeithio ar hyder defnyddwyr. Fodd bynnag, roedd y twf yn CDG y DU o 0.4% yn y tri mis hyd at ddiwedd Gorffennaf 2026 yn galonogol, yn enwedig yng nghyd-destun amodau anoddach y farchnad lafur a ddangoswyd gan ostyngiad mewn swyddi gwag a gweithwyr cyflogedig yn y DU yn y flwyddyn hyd at ddiwedd Awst 2026.

Ar gyfer Cymru, yn benodol, roedd canfyddiadau Arolwg Effeithiau ac Amodau Busnes y SYG ar gyfer Gorffennaf 2026 hefyd yn galonogol gyda bron i 37% o fusnesau Cymru yn disgwyl gweld gwelliant yn eu perfformiad yn y flwyddyn hyd at fis Gorffennaf 2027.

Mae cynlluniau ar gyfer asiantaeth datblygu genedlaethol newydd i Gymru wedi symud ymlaen, a disgwylir i'r asiantaeth ddenu mewnfuddsoddiad a chefnogi busnesau brodorol i dyfu. Sefydlwyd panel arbenigol i ystyried ei chylch gorchwyl, sy'n debygol o gynnwys gwella cynhyrchiant ar draws economi Cymru. Ym mis Medi 2026, rhybuddiodd Fforwm Cynhyrchiant Cymru fod bylchau sgiliau, anawsterau wrth ddiwallu anghenion penodol cyflogwyr a chyfyngiadau cyllido yn parhau i gyfyngu ar uchelgeisiau cynhyrchiant hirdymor Cymru. Mae'r heriau hyn yn arbennig o arwyddocaol i fusnesau bach a chanolig, gyda llawer ohonynt yn canolbwyntio ar wydnwch a goroesi o dan amodau economaidd presennol yn hytrach na buddsoddiad i wella cynhyrchiant. Bydd cyflawni uchelgeisiau cynhyrchiant Llywodraeth Cymru felly yn gofyn am ddull cytbwys sy'n cefnogi busnesau bach a chanolig Cymru i dyfu a buddsoddi, yn datblygu'r sylfaen sgiliau rhanbarthol, ac yn denu cyfalaf allanol o ddiwydiannau twf uchel.

Darparodd Banc Datblygu Cymru fenthyciadau, ecwiti a buddsoddiadau eiddo gwerth £48.4 miliwn i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru yn ystod chwarter agoriadol blwyddyn ariannol 2026/27, gan greu a chefnogi bron i 1,140 o swyddi. Yn ystod y flwyddyn hyd at Ch1 2026/27 gwnaed buddsoddiadau o gyfanswm o £170 miliwn. Gwnaed buddsoddiadau'r Banc Datblygu ledled Cymru, ac i bob sector o'r economi. Yn Ch1 2026/27 roedd tua 60% o'r cytundebau ar gyfer 'tyfu busnes', gyda 15% arall ar gyfer 'dechrau busnes'. Mae'r buddsoddiadau hyn yn helpu i lenwi rhai o'r bylchau cyllido a nodwyd sy'n wynebu busnesau bach a chanolig yng Nghymru.

[68] Camgymharu Sgiliau a Bylchau Ariannu yn 'Tanseilio Uchelgeisiau Cynhyrchiant' yng Nghymru

Atodiad 1:
Adnoddau dethol sy'n cael eu diweddaru'n aml

Mae rhai ffigurau a grybwyllir yn yr adroddiadau chwarterol yn newid yn eithaf cyflym. I'r darllenydd, mae'r atodiad hwn yn darparu dolenni gwe i'r ystadegau sy'n cael eu diweddaru'n aml fel y gellir cael diweddariadau cyn yr adroddiad chwarterol nesaf.

Diweddariadau am CDG y DU:
https://www.ons.gov.uk/economy/grossdomesticproductgdp/bulletins/gdpfirstquarterlyestimateuk/latest

Dadansoddiad o farchnad lafur y DU:
https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/

Data marchnad lafur ranbarthol y DU:
https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/datasets/nationallabourmarketsummarybyregions01

Atodiad 2:

Rhagolygon CDG dethol ar gyfer economi'r DU 2026 a 2027 (% twf blynyddol)

Daroganwyr	Dyddiad y rhagolwg	2026 CDG % twf blynyddol	2027 CDG % twf blynyddol
CEBR	Medi 2026	1.2	1.1
Heteronomics	Medi 2026	1.3	1.1
NIESR	Awst 2026	1.1	1.1
Daroganwyr eraill nad ydynt yn y ddinas			
OECD	Mehefin 2026	0.9	1.1
Experian Economics	Medi 2026	1.3	1.2
Oxford Economics	Gorffennaf 2026	0.9	0.9
Daroganwyr y ddinas			
Capital Economics	Medi 2026	1.2	1.0
JP Morgan	Medi 2026	1.4	1.4
KPMG	Awst 2026	1.2	1.2

Ffynhonnell: https://www.gov.uk/government/statistics/forecasts-for-the-uk-economy-september-2026

Atodiad 2:

Rhagolygon cyfradd diweithdra dethol o Arolwg o'r Llafurlu ar gyfer economi'r DU 2026 a 2027 Ch4

Daroganwyr	Dyddiad y rhagolwg	Cyfradd ddiweithdra AoLl 2026 Ch4	Cyfradd ddiweithdra AoLl 2027 Ch4
CEBR	Medi 2026	4.9	4.7
Heteronomics	Medi 2026	4.7	4.7
NIESR	Awst 2026	5.3	5.1
Daroganwyr eraill nad ydynt yn y ddinas			
CBI	Mehefin 2026	5.5	5.3
Experian Economics	Medi 2026	5.1	5.2
Oxford Economics	Gorffennaf 2026	5.5	5.3
Daroganwyr y ddinas			
Capital Economics	Medi 2026	5.2	5.2
JP Morgan	Medi 2026	5.0	4.9
KPMG	Awst 2026	5.0	5.1

Ffynhonnell: https://www.gov.uk/government/statistics/forecasts-for-the-uk-economy-september-2026

Atodiad 2:

Rhagolygon twf mewn prisiau ar gyfer economi'r DU 2026 a 2027 (% twf Ch4-ar-Ch4): Chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr (MPD)

Daroganwyr	Dyddiad y rhagolwg	MPD 2026 (Ch4 ar Ch4 flwyddyn yn ôl, %)	MPD 2027 (Ch4 ar Ch4 flwyddyn yn ôl, %)
CEBR	Medi 2026	3.3	2.1
Heteronomics	Medi 2026	3.5	3.3
NIESR	Awst 2026	3.6	2.6
Daroganwyr eraill nad ydynt yn y ddinas			
OECD	Mehefin 2026	4.3	1.1
Experian Economics	Medi 2026	3.2	2.1
Oxford Economics	Gorffennaf 2026	3.1	2.1
Daroganwyr y ddinas			
Capital Economics	Medi 2026	3.8	2.1
JP Morgan	Medi 2026	3.3	2.2
KPMG	Awst 2026	3.4	2.0

Ffynhonnell: https://www.gov.uk/government/statistics/forecasts-for-the-uk-economy-september-2026

Atodiad 2:

Rhagolygon twf mewn prisiau ar gyfer economi'r DU 2026 a 2027 (% twf Ch4-ar-Ch4): Chwyddiant Mynegai Prisiau Manwerthu (MPM)

Daroganwyr	Dyddiad y rhagolwg	MPM 2026 (Ch4 ar Ch4 flwyddyn yn ôl, %)	MPM 2027 (Ch4 ar Ch4 flwyddyn yn ôl, %)
CEBR	Medi 2026	4.4	3.2
Beacon Economic Forecasting	Medi 2026	4.0	3.6
NIESR	Awst 2026	4.8	4.0
Daroganwyr eraill nad ydynt yn y ddinas			
Heteronomics	Medi 2026	4.1	4.1
Experian Economics	Medi 2026	3.8	2.9
Oxford Economics	Gorffennaf 2026	3.6	3.4
Daroganwyr y ddinas			
Capital Economics	Medi 2026	4.7	3.4
HSBC	Medi 2026	4.6	3.1
UBS	Medi 2026	3.9	2.5

Ffynhonnell: https://www.gov.uk/government/statistics/forecasts-for-the-uk-economy-september-2026



Dirnad Economi Cymru
Economic Intelligence Wales

bancdatblygu.cymru
developmentbank.wales

Banc Datblygu Cymru ccc (Development Bank of Wales Plc) yw cwmni daliannol Grŵp sy'n masnachu fel Banc Datblygu Cymru. Mae'r Grŵp yn cynnwys nifer o is-gwmnïau sydd wedi'u cofrestru ag enwau gan gynnwys y blaenlythrennau BDC. Mae Banc Datblygu Cymru ccc yn gwmni cyllid datblygu sy'n eiddo'n gyfan gwbl i Weinidogion Cymru ac nid yw wedi'i awdurdodi na'i reoleiddio gan yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus (ARhD) na'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (AYA). Mae gan Fanc Datblygu Cymru (Banc Datblygu Cymru ccc) dri is-gwmni sydd wedi'u hawdurdodi a'u rheoleiddio gan yr AYA. Sylwch nad yw Banc Datblygu Cymru ccc nac unrhyw un o'i is-gwmnïau yn sefydliadau bancio nac yn gweithredu felly. Mae hyn yn golygu na all unrhyw un o endidau'r grŵp dderbyn blaendaliadau gan y cyhoedd. Mae siart strwythur cyfreithiol cyflawn ar gyfer Banc Datblygu Cymru ccc ar gael yn bancdatblygu.cymru.